

**2020 (LLC20-35)**

**DEDDF Y CORONAFEIRWS  
2020**

**Hysbysiad Datgymhwysio Gofynion  
y Cwricwlwm yng Nghymru 2020**

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 38(1) o Ddeddf y Coronafeirws 2020(1), a pharagraff 7 o Atodlen 17 iddi, yn dyroddi'r hysbysiad a ganlyn.

**Datgymhwysio gofynion y cwricwlwm**

1. Mae'r deddfiadau a ganlyn wedi eu datgymhwysio am y cyfnod penodedig—

- (a) adran 69 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(2) ac Atodlen 19 iddi (dyletswydd i sicrhau darpariaeth ddyladwy addysg grefyddol);
- (b) adran 101(1) o Ddeddf Addysg 2002(3) (cwricwlwm ysgolion a gynhelir yng Nghymru i gynnwys cwricwlwm sylfaenol);
- (c) adran 109 o'r Ddeddf honno (gweithredu'r Cwricwlwm Cenedlaethol mewn ysgolion a gynhelir);
- (d) adran 110 o'r Ddeddf honno (gweithredu'r Cwricwlwm Cenedlaethol mewn ysgolion meithrin a gynhelir a lleoliadau addysg feithrin eraill);
- (e) adrannau 116A i 116K o'r Ddeddf honno (y cwricwlwm lleol);
- (f) Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 2) (Cymru) 2004(4);
- (g) Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 3) (Cymru) 2005(5);

---

(1) 2020 p.7  
(2) 1998 p. 31.  
(3) 2002 p. 32.  
(4) O.S. 2004/2915 (Cy. 254).  
(5) O.S. 2005/1394 (Cy. 108).

- (h) Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Trefniadau Asesu ar gyfer Darllen a Rhifedd) (Cymru) 2013(1);
- (i) Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a'r Ail Gyfnod Allweddol a'r Trydydd Cyfnod Allweddol) (Cymru) 2014(2);
- (j) Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Cymedroli Trefniadau Asesu ar gyfer yr Ail Gyfnod Allweddol a'r Trydydd Cyfnod Allweddol) (Cymru) 2015(3);
- (k) Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Deilliannau Dymunol, Rhaglenni Addysg a Threfniadau Asesu Sylfaenol a Diwedd Cyfnod ar gyfer y Cyfnod Sylfaen) (Cymru) 2015(4).

### **Y rhesymau dros ddyroddi'r hysbysiad**

2.—(1) Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod dyroddi'r hysbysiad hwn yn gam gweithredu priodol a chymesur o dan yr holl amgylchiadau sy'n ymwneud â mynychder neu drosglwyddiad y coronafeirws am y rhesymau a ganlyn.

(2) Er 20 Mawrth 2020, mae ysgolion a gynhelir, ysgolion meithrin a gynhelir a darparwyr addysg feithrin eraill a gyllidir wedi parhau i fod ar agor i blant hyglwyf a phlant gweithwyr hanfodol. Mae ysgolion hefyd wedi bod yn gweithio i ddarparu addysg o bell i blant eraill, gan ddibynnu ar gynhorthwy rhieni a gofalwyr.

(3) Ni all rhieni a gofalwyr sy'n cynorthwyo plant gyflawni'r un rôl ag athrawon. Mae athrawon yn darparu cymorth o bell ond nid yw hyn yn cyfateb i'r cymorth a ddarperir mewn ystafell ddosbarth. Nid yw pob plentyn yn gallu ymgysylltu'n effeithiol â dysgu o bell, neu'n fodlon gwneud hynny, yn benodol plant iau a phlant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Nid oes gan rai plant ac aelwydydd fynediad i'r adnoddau digonol a'r dechnoleg ddigonol y mae eu hangen i ymgymryd â dysgu o bell. Felly, mae'n annhebygol y gall yr holl ofynion sy'n ymwneud â darparu'r cwricwlwm gael eu bodloni.

(4) Bydd datgymhwyso dros dro ofynion sy'n ymwneud â darparu'r cwricwlwm yn rhoi'r hyblygrwydd i ysgolion a gynhelir, ysgolion meithrin a gynhelir a darparwyr addysg feithrin eraill a gyllidir i ymateb yn y ffordd fwyaf priodol i'r amgylchiadau sydd ohoni ac yn caniatáu iddynt ganolbwyntio ar

---

(1) O.S. 2013/433 (Cy. 51).  
 (2) O.S. 2014/1999 (Cy. 200).  
 (3) O.S. 2015/1309 (Cy. 113).  
 (4) O.S. 2015/1596 (Cy. 195).

anghenion plant, sef anghenion sy'n newid. Yn benodol, mae angen i ysgolion a darparwyr addysg feithrin allu canolbwyntio ar iechyd a lles plant. Bydd angen i ysgolion a darparwyr addysg feithrin eraill a gyllidir allu canolbwyntio hefyd ar helpu plant i ddychwelyd wrth i fwy o blant fynychu'r ysgol a mangreuedd meithrin unwaith eto. Bydd llawer o blant wedi wynebu heriau gwahanol a byddant felly wedi symud ymlaen ar gyflymderau gwahanol.

(5) Bwriedir i lawer o'r Cwricwlwm Cenedlaethol gael ei ddarparu mewn ystafell ddsbarth gorfforol ac yn ôl amserlen lawn. Gall dysgu o bell fod mewn lle am beth amser ac ni chynlluniwyd y gofynion a osodir sy'n ymwneud â'r cwricwlwm ac asesu o dan adran 108 o Ddeddf Addysg 2002 i'w bodloni o bell, naill ai yn gyfan gwbl neu'n rhannol.

(6) Nid yw datgymhwyso gofynion sy'n ymwneud â'r cwricwlwm yn rhwystro ysgolion rhag cynnal asesiadau mewn ffordd sy'n briodol ac yn berthnasol i'w cyd-destun lleol ac i anghenion plant, a'r amharu ar eu haddysg ar hyn o bryd wedi effeithio'n wahanol ar lawer o'r plant hynny. Bydd hyn yn golygu bod angen dull mwy unigol o asesu a bydd datgymhwyso dros dro ofynion sy'n ymwneud â darparu'r cwricwlwm sylfaenol yn galluogi hynny.

### **Cyfnod penodedig**

3. Yn yr hysbysiad hwn, ystyr "cyfnod penodedig" yw'r cyfnod o 30 o ddiwrnodau sy'n dechrau â 24 Mehefin 2020.

*Llofnodwyd gan Kirsty Williams*

*Yr Gwenidog Addysg, un o Weinidogion Cymru*

*23 Mehefin 2020*